Pecyn Mathemateg Teulu

# Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

## Blwyddyn 5

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Ariannwyd y gwaith o gyfieithu a dylunio'r adnodd hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Prosiect Lluosi).
Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

# Pecyn Mathemateg Teulu

## Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i wella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg pob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud â'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

## Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrio a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Pecyn Mathemateg Teulu

## Ar gyfer rhieni a gofalwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Beth am ddyfalu'r ateb i weld ydy o'n iawn?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallech dynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau – mae i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i ôl-gyfleu eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a chysylltiadau Cwricwlwm Bl5

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Rhif a gwerth lle** | Hyd at filiwn<br>Llinell amser rhifau Rhufeinig<br>Cyfrif Iach | Adnabod, cynrychioli ac amcangyfrif rhifau.<br>Adnabod blynyddoedd mewn rhifau Rhufeinig.<br>Darllen, ysgrifennu, trefnu a chymharu rhifau hyd at 1,000,000. | Llinell amser |
| | | Gêm 'Countdown' | Darllen, trefnu a chymharu rhifau hyd at 1,000,000 o leiaf, a phenderfynu gwerth pob digid. | Datrys problemau |
| | | Gwyliau Gwlad yr Iâ | Dehongli rhifau negyddol mewn cyd-destun, cyfrif ymlaen ac yn ôl gyda rhifau positif a negyddol, gan gynnwys drwy sero. | |
| | **Rhif** (cyfrifiadau) | Pos Pyramid | Adio rhifau yn y pen, gyda rhifau cynyddol fwy o hyd. | Meddwl a rhesymu. |
| | | Lladron y Gofod!<br>Rhif Lwcus 8<br>Ffisig Peswch | Datrys ystod o broblemau drwy rannu.<br>Datrys problemau rhif.<br>Datrys problemau'n ymwneud ag adio a lluosi. | Gweithio'n systematig. |
| | **Ystadegau** | Taldra bechgyn | Datrys problemau cymharu a gwahaniaeth yn defnyddio graffiau llinell. | |

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a chysylltiadau Cwricwlwm Bl5

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn** | **Rhif** (cyfrifiadau) | Raced denis | Datrys problemau mewn cyd-destun gan benderfynu pa rai o'r pedair gweithred i'w defnyddio, cyfrifo'n defnyddio llefydd degol yng nghyd-destun arian, cyfrifo canrannau arian syml. | Deall y calendr |
| | **Rhif** (FDP) | Jiráffs | Defnyddio adio a thynnu i ddatrys problemau gyda rhifau hyd at dri lle degol. | Mesur - hyd |
| | | Penbleth gyda phitsa | Datrys problemau ymarferol gyda ffracsiynau. | |
| | | Nofwyr o fri | Datrys problemau gyda chanrannau a ffracsiynau. | |
| | **Mesur** | Peintio wal | Defnyddio ffracsiynau i ddatrys problemau sy'n cynnwys cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (gan gynnwys sgwariau), yn defnyddio unedau o fetrau sgwâr. | Lluosi hyd at 2 le degol. |
| | | Sŵ moethau plant | Cyfrifo arwynebedd hirsgwariau'n defnyddio centimetrau / metrau sgwâr. | |
| | **Ystadegau** | Reidiau parc thema | Cwblhau, darllen a dehongli gwybodaeth mewn tablau, gan gynnwys amserlenni. | |

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a chysylltiadau Cwricwlwm Bl5

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Haf** | **Rhif** (gwerth lle) | Gwellt Caws Rhan 1 | Datrys problemau gyda degolion hyd at ddau le degol a mesuriadau mewn cyd-destun | |
| | **Rhif** (cyfrifiadau) | Pos croesymiau<br>Rhifau cysefin – gwir neu anwir | Defnyddio'r pedair gweithred rifyddol.<br>Deall a defnyddio geirfa rhifau cysefin. | Datrys problemau |
| | **Mesur** | Llaeth gwartheg godro<br><br>Y diwrnod ysgol | Trosi rhwng gwahanol unedau o fesurau metrig (er enghraifft, l a ml).<br>Datrys problemau drwy drosi rhwng unedau amser. | Datrys problemau |
| | | Trip ysgol i'r sŵ<br>Pero'n mynd am dro i'r parc | Datrys problemau'n defnyddio unedau amser.<br>Trosi rhwng gwahanol unedau o fesurau metrig a datrys problemau. | Datrys problemau |
| | **Geometreg** | Gwellt Caws Rhan 2 | Adnabod siapiau 3D gan gynnwys ciwbiau a chiwboidau eraill, o gynrychioliadau 2D. | |
| | **Rhesymu** | Maes parcio rhesymegol | Rheswm a rhesymu. | |



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Hyd at filiwn

Pecyn Mathemateg Teulu

## Pa mor hir y mae'n ei gymryd i gyfrif i 100?

Amcangyfrifwch faint fyddai'n ei gymryd i gyfrif i 1000. Sut wnaethoch chi gyfrifo eich amcan?

Dywedodd Megan, "Cymrodd ddau funud i mi gyfrif i 100 felly dw i'n meddwl y bydd yn cymryd 20 munud i gyfrif i 1000."
Ydych chi'n meddwl bod ei hamcangyfrif yn un da?

Rŵan cyfrifwch ba mor hir y byddai'n ei gymryd i gyfrif i 1,000,000.
Gwnewch amcangyfrifon eraill i weld pa mor agos fyddwch chi.

Byddai'n cymryd amser hir iawn i gyfrif i filiwn, ond heb gyfrif gallwn amcangyfrif bod traeth yn sicr o gynnwys mwy na miliwn gronyn o dywod. Allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill o filiwn?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod, cynrychioli ac amcangyfrif rhifau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Llinell amser rhifau Rhufeinig

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dyma ddigwyddiadau enwog mewn hanes a blynyddoedd eu digwydd mewn rhifau Rhufeinig.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brwydr Waterloo | Brad y Powdwr Du | Brenhines Elizabeth II yn 90 oed | Y Rhyfel Byd Cyntaf yn dechrau | Tân Mawr Llundain | Tîm pêl-droed Lloegr yn ennill Cwpan y Byd | Y Rhufeiniaid yn goresgyn Cymru gyntaf |
| Lewis Carroll yn cyhoeddi 'Alice's Adventures in Wonderland' | Margaret Thatcher yn dod y ferch gyntaf i fod yn Brif Weinidog | Agor Twnnel y Sianel | Arian degol yn disodli 'punnoedd, sylltau a cheiniogau' | Y Frenhines Fictoria yn marw | Cyhoeddi'r llyfr Harry Potter cyntaf | Cynnal y Gemau Olympaidd yn Llundain |
| MMX11 | MDCCCXV | LXXVIII | MCMXCV11 | MDCCCLXV | MCMLXXIX | MCMI |
| MCMXCIV | MCMLXXI | MDCV | MMXVI | MCMXIV | MCMLXVI | MDCLXI |

Allwch chi eu torri allan a'u paru, wedyn eu rhoi i gyd ar linell amser?

**Her:** Allwch chi ychwanegu blynyddoedd a digwyddiadau eraill i'r llinell amser?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Darllen rhifau Rhufeinig ac adnabod blynyddoedd wedi eu hysgrifennu fel rhifau Rhufeinig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Llinell amser rhifau
# Cyfrif iach

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn ôl arbenigwyr iechyd, mae cerdded 10,000 cam y dydd yn gallu bod yn ffordd hwyl o wneud mwy o ymarfer corff. Gall gynyddu stamina, llosgi caloriau a rhoi calon iachach i chi.**



Mae 10,000 yn tua 5 milltir (mae 2000 cam yn tua 1 filltir). Pa mor bell allwch chi gerdded mewn diwrnod, gan amcangyfrif rhai o'ch gweithgareddau. Dyma rai syniadau:

- Cerdded i'r ysgol
- Cerdded o gwmpas ysgol
- Cerdded i fyny'r grisiau
- Cerdded y ci
- Pêl-droed, pêl-rwyd, golffio ayyb

Allwch chi amcangyfrif faint o gamau allwch chi eu cymryd ar ddiwrnod arferol?

**Her:** Allwch chi feddwl am sut i gynyddu hyn?
Oes rhai o'ch teulu chi'n meddwl eu bod yn cerdded 10,000 cam y dydd?

**Gair o gyngor:** Cyfrwch eich camau dros bellter byr ac amcangyfrif.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Darllen, ysgrifennu, trefnu a chymharu rhifau hyd at 1,000,000; datrys problemau rhif a phroblemau ymarferol yn ymwneud â rhifau mawr.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gêm 'Countdown'

Pecyn Mathemateg Teulu

Dyma'r cardiau gyda'r digidau 1-9 arnynt, a cherdyn ychwanegol gyda phwynt degol. Torrwch nhw allan, eu cymysgu a'u rhoi wyneb i lawr.

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 3 | 4 |
| 5 | 6 |
| 7 | 8 |
| 9 | 0 |
| . | |

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 3 | 4 |
| 5 | 6 |
| 7 | 8 |
| 9 | 0 |
| . | |

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

Yn eich tro, cymrwch un cerdyn nes bydd gan bob chwaraewr 4 cerdyn.
Ceisiwch wneud y rhif mwyaf posib gyda'ch cardiau i gyd. Y chwaraewr gyda'r rhif mwyaf sy'n ennill.

Os oes mwy na dau berson yn chwarae, gwnewch set arall o gardiau. Gallwch newid y gêm i wneud y rhif lleiaf posib.

Gallech ddefnyddio dwy set o gardiau a chymryd 6 cerdyn yr un i wneud rhifau mwy neu gêm fwy heriol.

**Gair o gyngor:** Siaradwch am werth pob digid, yn enwedig gydag unrhyw enghreifftiau agos, darllenwch allan y rhifau sy'n cael eu creu.



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Darllen, trefnu a chymharu rhifau hyd at 1,000,000 o leiaf, a phenderfynu gwerth pob digid.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwyliau Gwlad yr Iâ

**Pecyn Mathemateg Teulu**


**Pe baech yn trefnu gwyliau i Wlad yr Iâ, byddai gennych efallai ddiddordeb ym mha dymheredd i'w ddisgwyl. Amser da i fynd fyddai Awst efallai.**





Mae'r tymheredd wedi'i fesur pob mis ar y 1af o bob mis am 6am, a dyma beth a gofnodwyd:

- Yn Ionawr, y tymheredd oedd -6°C
- Yn Chwefror, gostyngodd y tymheredd o 2°C
- Ym Mawrth, cododd y tymheredd o 7°C
- Yn Ebrill, cododd y tymheredd o 5°C
- Ym Mai, gostyngodd y tymheredd o 0.5°C
- Ym Mehefin, cododd y tymheredd o 4°C
- Yng Ngorffennaf, cododd y tymheredd o 1.75°C
- Yn Awst, cododd y tymheredd o 2°C



Beth oedd y tymheredd yn Awst? Hoffech chi fynd bryd hynny? Faint yn oerach neu gynhesach ydyw na lle'r ydych yn byw heddiw?

**Her:** Edrychwch ar wahanol dymheredd yn y byd a dod o hyd i'r lle oeraf a phoethaf heddiw – pa un fyddai'n well gennych?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Dehongli rhifau negyddol mewn cyd-destun, cyfrif ymlaen ac yn ôl gyda rhifau positif a negyddol, gan gynnwys drwy sero.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: **enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


# Pos pyramid

Pecyn Mathemateg Teulu

**Rhowch y digidau 1 i 5 ym mhob un o'r sgwariau gwaelod, mewn unrhyw drefn.**

Gallwch ddod o hyd i'r rhifau drwy adio'r ddwy fricsen isod. Er enghraifft:



Pe byddech chi a'ch teulu'n cwblhau hwn, gan bwy fyddai'r cyfanswm uchaf ym mricsen uchaf y pyramid?

**Her:** Siaradwch am sut i gael y rhif lleiaf yn y fricsen uchaf.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Dehongli rhifau negyddol mewn cyd-destun, cyfrif ymlaen ac yn ôl gyda rhifau positif a negyddol, gan gynnwys drwy sero.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Lladron Gofod!

Pecyn Mathemateg Teulu



**Mae 9 lleidr gofod yn cipio llong-ofod estron gan ddarganfod cist drysor llawn o aur; maen nhw'n penderfynu rhannu'r darnau aur a mynd eu ffyrdd eu hunain. Ond wrth geisio gwneud hyn, mae 2 ddarn aur ar ôl. Maen nhw'n cwffio dros bwy ddylai eu cael nhw!**

Mae un lleidr yn cael ei alw'n ôl i'r ganolfan ofod. Mae'r lleill yn mentro rhannu'r darnau aur rhwng yr 8 ohonynt, ond unwaith eto'n ffraeo oherwydd bod un darn dros ben.

Cyfrifwch faint o ddarnau aur y daeth y lladron gofod o hyd iddynt.

**Her:** Newidiwch y broblem i ffrind drwy gael nifer wahanol o ladron gofod neu nifer wahanol o ddarnau aur dros ben. Gwiriwch i weld neith o weithio!

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys ystod o broblemau'n defnyddio rhannu, gweithio'n systematig a datblygu'r meddwl mathemategol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhif Lwcus 8

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn niwylliant Tsieina, mae'r rhif 8 yn cael ei ystyried i fod yn lwcus.**

**Un enghraifft yw cwpwl Tsieineaidd sydd eisiau priodi yn y flwyddyn 2024 oherwydd bod y digidau i gyd yn adio i 8 (2 + 0 + 2 + 4 = 8). Mae'n golygu ei bod yn flwyddyn lwcus!**

Pe baent wedi eu geni yn 1990 ac angen bod yn 18 i briodi, a oes blynyddoedd eraill y gallent fod wedi eu dewis?

**Her:** Wyddoch chi am rywun a briododd mewn blwyddyn '8' lwcus? Wyddoch chi am rywun a anwyd mewn blwyddyn '8' lwcus?

**Gair o gyngor:** Dechreuwch drwy gyfrifo'r flwyddyn gyntaf pryd y maen nhw'n 18 oed.

8

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau rhif.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Ffisig Peswch

Pecyn Mathemateg Teulu


**Yn anffodus mae gan un teulu i gyd beswch cas. Mae potel o ffisig peswch yn cynnwys 500ml o ffisig.**

- **DOS OEDOLION:**
  **10ML 4 GWAITH Y DYDD**
- **DOS PLANT:**
  **5ML 4 GWAITH Y DYDD**

Mae angen i ddau oedolyn a dau blentyn gymryd y ffisig pob dydd am bum diwrnod.

A fydd digon o ffisig peswch yn y botel? Siaradwch am ac eglurwch eich ateb.

A oes gennych chi boteli ffisig yn y tŷ? Beth yw capasiti'r poteli? Faint o ddosys allech chi ei gael o'r botel?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau'n ymwneud ag adio a lluosi.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Taldra Bechgyn

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dyma graff llinell yn dangos taldra cyfartalog bechgyn rhwng 1 a 9 oed.**




Allwch chi blotio eich taldra eich hun ar y graff hwn? Mae taldra cyfartalog merched fel arfer yn llai na bechgyn ond mae pawb yn wahanol!

**Her:** Faint yn dalach yw aelodau o'ch teulu chi? A fyddai angen graff newydd arnoch i ddangos aelodau eraill o'r teulu?




**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:**
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**


**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Raced denis

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Siwan yn cynilo ei harian i brynu raced denis. Ar ei phen-blwydd ar 31 Awst, mae ei nain wedi rhoi £20 iddi tuag at ei brynu.**

Mae'n dechrau cynilo ar 1 Medi ac yn rhoi 30c yn ei chadw-mi-gei bob dydd.

Mae ewythr Siwan yn dweud os bydd wedi cynilo £50 erbyn diwedd Rhagfyr, y bydd yn rhoi 20% ychwanegol iddi.

A fydd yn llwyddo i gynilo £50?
Os bydd, faint yn ychwanegol fydd ei hewythr yn ei roi iddi?

A fydd yn gallu prynu raced am £66?

**Her:** Pe byddech yn gallu cynilo 60c y dydd am fis, ar beth fyddech chi'n ei wario? Neu a fyddech yn ei gynilo am hyd at flwyddyn? Beth fyddech yn ei brynu wedyn?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau mewn cyd-destun gan benderfynu pa rai o'r pedair gweithred i'w defnyddio, cyfrifo'n defnyddio llefydd degol yng nghyd-destun arian, cyfrifo canrannau arian syml.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Jiráffs

Pecyn Mathemateg Teulu

**Y gwahaniaeth taldra rhwng dau jiráff yw 2.362m. Nid yw'r byrraf wedi gorffen tyfu ac mae'n 3.451m.**


Beth yw taldra'r jiráff talaf?

Mae jiráffs benyw ychydig yn fyrrach, fel arfer rhwng 4-5m o daldra.

Mae cyfanswm taldra dwy jiráff fenyw'n 9.343m.

Beth allai taldra un jiráff fenyw fod?

**Her:** Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y person talaf a byrraf yn eich teulu? Faint yn dalach yw jiraff gwryw sy'n 6m?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio adio a thynnu i ddatrys problemau drwy fesur (hyd) a defnyddio rhifau hyd at dri lle degol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: **enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Penbleth gyda phitsa


Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Harri'n prynu 6 pitsa i'w ffrindiau.**

Mae pob ffrind yn cael 3/4 pitsa – faint o ffrindiau fydd yn cael pitsa?

Pa ffracsiynau eraill fyddai Harri'n gallu torri'r pitsa iddynt fel bod pawb yn cael yr un faint?

**Her:** Pe bai eich teulu'n prynu 3 gwahanol bitsa (caws, ham a phîn-afal, a selsig sbeislyd), pa ffracsiynau posib allech chi gyd ei gael?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau ymarferol gyda ffracsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Nofwyr o fri

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mewn pencampwriaeth nofio, mae 240 o rasys. Y rhain yw:**



- 120 dull broga
- 60 dull pili pala
- 30 dull rhydd
- 24 dull cefn
- 6 cymysg

Mae un nofiwr o fri, Siôn, yn dda iawn ac wedi gwneud nifer o'r rasys:

- 1/3 o'r rasys broga
- 5/6 o'r rasys pili pala
- 1/5 o'r rasys rhydd
- 3/4 o'r rasys cefn

Faint o rasys wnaeth o eu gwneud i gyd?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Mae ei efaill Siân hefyd yn nofwraig dda ac wedi gwneud:
75% o'r rasys broga
15% o'r rasys pili pala
20% o'r rasys rhydd
50% o'r rasys cefn

Pwy nofiodd y mwyaf o rasys?

**Her:** Pa ddull nofio sy'n well gennych chi? Allwch chi gymryd arnoch eich bod am wneud y rasys i gyd a phenderfynu pa ganran neu ffracsiwn o bob un yr ydych am ei nofio? A fyddai pobl eraill yn eich teulu'n dewis rasys gwahanol?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau sydd angen dealltwriaeth o ganrannau a ffracsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Peintio wal

Pecyn Mathemateg Teulu



**Roedd Meical yn helpu ei rieni i beintio eu hystafell fyw. Gwelodd fod 1/5 can o baent yn ddigon i wneud 2.5 metr sgwâr o wal.**

Faint o wal allai un can cyfan o baent ei beintio?

Amcangyfrifwch faint o ganiau o'r un paent fyddai ei angen arnoch i beintio waliau eich llofft.

Sylwodd Meical fod angen paent gwyn ar y nenfwd a bod 1/3 o gan yn ddigon i beintio 3.5 metr sgwâr. Faint o'r nenfwd fyddai'r can cyfan yn gallu ei beintio?

**Her:** Faint o ganiau fyddai ei angen i beintio nenfwd eich llofft?

**Gair o gyngor:** Mesurwch y llawr, bydd hwnnw'r un fath â'r nenfwd!

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio ffracsiynau i ddatrys problemau sy'n cynnwys cyfrifo a chymharu arwynebedd hirsgwariau (gan gynnwys sgwariau), yn defnyddio unedau o fetrau sgwâr.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Sŵ moethau plant

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn y sŵ mae angen closydd HIRSGWAR (1 sgwâr = 1m²) ar yr anifeiliaid.**

- Gwnewch glôs ieir sy'n gorchuddio arwynebedd o 36m² yng nghornel dde-orllewin y map. Tynnwch lun yr ieir a lliwiwch y clôs yn felyn.
- Yn y canol, gwnewch glôs cwningod sy'n gorchuddio 4m². Tynnwch lun y cwningod a lliwio'r clôs yn wyrdd.
- Yn y dwyrain, gwnewch glôs ar gyfer ŵyn sy'n gorchuddio 10m². Tynnwch l un yr ŵyn a lliwio'r clôs yn frown.
- Allwch chi ffitio unrhyw glosydd eraill? Beth yw eu harwynebedd a pha anifeiliaid sy'n cael eu cadw yno? Beth am dynnu llun llwybrau i gysylltu'r closydd i gyd?




**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:**
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers




**Her:** Allwch chi dynnu llun grid arall a dylunio eich sŵ eich hun ar gyfer anifeiliaid eraill? Cofiwch mai'r anifeiliaid mwyaf sydd â'r closydd gyda'r arwynebedd mwyaf fel arfer. Allwch chi gynnwys unrhyw glosydd sydd ddim yn hirsgwar?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cyfrifo arwynebedd hirsgwariau'n defnyddio centimetrau/metrau sgwâr; gwybod beth yw'r pwyntiau ar gwmpawd.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Reidiau parc thema

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae rhai parciau thema mor fawr fel bod bysus yn mynd â'r ymwelwyr i wahanol reidiau. Dyma amserlen ar gyfer tri bws:**



| Reid | Bws melyn | Bws coch | Bws glas |
|---|---|---|---|
| Tŷ Ysbrydion | 9.30 | 10.30 | 13.30 |
| Reid Ofod | 9.40 | 10.40 | 13.40 |
| Trac Carlam | 10.00 | - | 14.00 |
| Reid Dŵr | 10.20 | 11.20 | 14.20 |
| Carwsél | 10.30 | 11.30 | - |
| Reid Saffari | 10.35 | 11.35 | 14.35 |
| Rheilffordd | 10.50 | - | 14.50 |
| Antur Jyngl | 11.10 | 12.00 | 15.10 |
| Reid Hud a Lledrith | 11.20 | 12.20 | - |
| Llong Môr-ladron | 11.35 | - | 15.35 |
| Llong Danfor | 11.50 | 12.50 | 15.50 |

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

- Pe byddai gennych docyn am y Reid Dŵr am 11.25, pa fws fyddai'r un gorau i'w ddal?
- Faint o'r gloch y mae'r bws glas yn cyrraedd y Rheilffordd?
- Faint o amser fyddai'n ei gymryd i fynd o'r Reid Ofod i'r Llong Danfor ar y bws glas?
- Pe byddech eisiau mynd ar y Rheilffordd a'r Reid Hud a Lledrith, pa fws fyddai ei angen?
- Pe byddech yn codi'n hwyr am 10.00, pa fws allech chi ei ddal o'r Tŷ Ysbrydion i fynd ar y Reid Saffari?

**Her:** Allwch chi feddwl am ddau gwestiwn arall yn cynnwys eich amseroedd?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu, darllen a dehongli gwybodaeth mewn tablau, gan gynnwys amserlenni.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwellt Caws
# Rhan 1

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dyma rysáit sydyn ar gyfer gwellt caws:**

- **Dad-roliwch baced o grwst pwff, taenu dyrnaid neu ddau o barmesan wedi gratio drosto a'i blygu yn ei hanner.**
- **Ar wyneb wedi'i flawdio, rholiwch o allan i drwch darn punt (£1).**
- **Torrwch o'n stribedi 1cm yna troelli'r stribedi 3-4 gwaith.**
- **Rhowch nhw ar drei popty, taenu mwy o gaws drostynt a phobi am 12 munud neu nes eu bod yn troi'n lliw aur.**

Tua faint o wellt caws fydd hyn yn ei wneud?

Os gallwch, rhowch gynnig ar y rysáit i weld faint o wellt y bydd yn ei wneud. Os na allwch, amcangyfrifwch.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

- Dim ond dau gynhwysyn sydd yn y rysáit:
- Paced o grwst pwff wedi'i rolio'n barod £1.30
- Parmesan – gallwch brynu hwn mewn gwahanol ffyrdd:
  - Twb 100g o gaws parmesan wedi gratio am £2.00
  - Twb 80g o siafins caws parmesan am £1.80
  - Darn 200g o gaws parmesan i chi ei gratio am £2.70

Amcangyfrifwch faint o gaws fydd ei angen a phenderfynu sut fath i'w brynu. Faint fydd eich rysáit yn ei gostio i wneud un swp o wellt?

**Her:** Pe byddech yn eu gwerthu mewn ffair ysgol ac angen gwneud 100, a fyddech yn eu gwerthu'n unigol neu mewn sypiau (5 neu 10 mewn swp)? Am faint y byddech yn eu gwerthu er mwyn gallu gwneud elw?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau gyda degolion i ddau le degol, a mesuriadau mewn cyd-destun.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Pos croesymiau

Pecyn Mathemateg Teulu

**Allwch chi gwblhau'r pos fel bod y symiau i gyd yn gywir?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | x | ? | = | ? | ? |
| - | | + | | ÷ | |
| ? | x | ? | = | ? | ? |
| = | | = | | = | |
| ? | + | ? | = | ? | ? |

**Her:** Allwch chi weithio gyda'ch gilydd i dynnu llun a chreu pos arall? Gallwch newid yr arwyddion os dymunwch.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio'r pedair gweithred rifyddol i ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhifau cysefin – gwir neu anwir?

Pecyn Mathemateg Teulu

**Gallwch bob amser wneud rhifau sgwâr drwy adio dau rif cysefin at ei gilydd.**

Ydy hyn yn wir neu'n anwir?

Er enghraifft mae 4 yn rhif sgwâr a gallwch ei wneud drwy adio 2 a 2.

Hefyd 9 = 2 + 7

Faint o eilrifau cysefin allwch chi feddwl amdanynt? Eglurwch pam.

**Gair o gyngor:** Rhif sgwâr yw cynnyrch rhif wedi'i luosi â fo ei hun. Gallwch ond rhannu rhif cysefin gyda fo ei hun ac 1.

7 + = 9

**Her:** Heriwch eich teulu i feddwl am enghreifftiau a gweld ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Deall a defnyddio geirfa rhifau cysefin.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwartheg godro a llaeth

Pecyn Mathemateg Teulu


**Mae buwch odro'n cynhyrchu, ar gyfartaledd, 24 litr o laeth y dydd.**

Amcangyfrifwch faint o laeth y mae eich teulu'n ei ddefnyddio mewn diwrnod. Cofiwch feddwl am laeth ar gyfer diodydd a grawnfwyd.

Pe bai eich teulu'n cadw buwch, faint o laeth fyddai gennych dros ben mewn wythnos? Neu a fyddai angen dwy fuwch arnoch?

Faint o deuluoedd allai un fuwch ddarparu llaeth ar eu cyfer?

**Gair o gyngor:** Mesurwch enghreifftiau o faint a ddefnyddiwch mewn jwg ac yna amcangyfrif (defnyddiwch ddŵr yn lle llaeth).



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Trosi rhwng gwahanol unedau o fesurau metrig (er enghraifft: l a ml).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: **enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Y diwrnod ysgol

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dychmygwch eich bod yn weinidog yn y llywodraeth gyda'r grym i newid y diwrnod ysgol – beth fyddech chi'n ei drefnu'n wahanol?**

Dyma ddiwrnod ysgol arferol:

| 9.00 | 10.30 | 10.45 | 11.00 | 12.00 | 13.00 | 15.00 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol yn agor – gwersi'n dechrau | Amser chwarae | Gwasanaeth boreol | Gwers | Amser cinio | Gwersi prynhawn yn dechrau | Ysgol yn gorffen |

Mae'r gwersi'n aml yn 60 munud o hyd. Mae ysgolion ar agor am 39 wythnos o'r flwyddyn ac yn cael 13 wythnos o wyliau (fel arfer, y gwyliau hiraf yw 6 wythnos yn yr haf).

Yn eich diwrnod ysgol, rhaid cael o leiaf 75 munud o amser chwarae. Gall y gwersi fod yn unrhyw hyd. Sut fyddech chi'n ad-drefnu'r diwrnod? Tynnwch lun o gynllun amserlen.

**Her:** Fyddech chi'n newid y gwyliau? Tynnwch lun o gynllun gwyliau.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau drwy drosi rhwng unedau amser.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trip ysgol i'r sŵ

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dychmygwch fod eich dosbarth yn mynd ar drip ysgol i'r sw. Bydd yn drip diwrnod cyfan a chi sy'n gyfrifol am drefnu'r diwrnod.**




Defnyddiwch y wybodaeth yma i greu amserlen o'r diwrnod. Cofiwch gynnwys pethau pwysig fel amser teithio, toriad am ginio a stops tŷ bach.

| | | Amseroedd | Pa mor hir |
|---|---|---|---|
| **Pethau i'w gweld** | Pengwiniaid; Gorilas; Teigrod; Mwncis; Pysgod; Pryfed; Jiráffs; Eliffantod; Llewod<br><br>Cae chwarae antur Siop | Unrhyw amser | |
| **Bwydo'r anifeiliaid** | Bwydo'r pengwiniaid<br><br>Gweld llewod yn cael eu bwydo | 11.00<br>9.40 | 20 munud<br>5 munud |
| **Amseroedd sioeau** | Parotiaid ar feics<br><br>Dal crwban yn eich llaw | 14.15<br>10.30 | 20 munud<br>10 munud |
| **Gwybodaeth bwysig** | Bws yn gadael yr ysgol<br><br>Bws yn gadael y sŵ | 8.45<br>15.30 | 25 munud i'r sŵ |

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau gydag unedau amser.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Pero'n mynd am dro i'r parc

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Pero a'i ffrind Mot wedi bod am dro i'r parc. Defnyddiwch y cliwiau hyn i gyfrifo pa mor bell gerddodd y ddau gi (yno ac yn ôl).**

- Mae llwybr eu gardd yn 5m o hyd
- Maen nhw'n stopio yn y siop anifeiliaid anwes yn gyntaf
- Mae eu tŷ 300m o'r siop anifeiliaid anwes
- Maen nhw'n cerdded heibio 5 postyn golau sy'n 25m ar wahân
- Y pellter o'r siop anifeiliaid anwes i'r gylchfan yw 0.75km
- Y pellter o'r gylchfan i'r parc yw 4.75m



**Gair o gyngor:** Tynnwch lun / map i'ch helpu i 'weld' y map yn eich pen.

**Her:** Allwch chi amcangyfrif pa mor bell fyddech chi'n cerdded i rywle wrth ymyl eich cartref? Cofiwch gyfrifo'n defnyddio un mesur, gan drosi'r pellteroedd i'r un uned fesur. Os ydych yn amcangyfrif pellteroedd o'ch cartref, cofiwch fod cam oedolyn tua 1m.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Trosi rhwng gwahanol unedau o fesurau metrig a datrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwellt Caws Rhan 2

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae net mathemategol yn batrwm y gallwch ei blygu i wneud siâp 3D solid. Bydd gan net ciwb 6 o sgwariau ac yn plygu i greu beth sy'n edrych fel dis.**




Yn y gweithgaredd Gwellt Caws Rhan 1, roeddech naill ai wedi gwneud gwellt caws neu wedi meddwl am sut i wneud rhai.


Meddyliwch am faint y gwellt caws – pa mor hir benderfynoch chi eu torri nhw?

Os byddech am eu gwerthu, gallech eu cyflwyno mewn bocs del. Beth fyddai angen i ddimensiynau eich bocs fod ar gyfer eich gwellt caws?

Allwch chi dynnu llun net y bocs? (Dim angen iddo fod i raddfa, dim ond labelu'r dimensiynau).

**Her:** A fyddech yn dewis ciwboid bob tro neu'n dylunio bocs siâp gwahanol?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod siapiau 3D gan gynnwys ciwbiau a chiwboidau eraill, o gynrychioliadau 2D.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Maes parcio rhesymegol

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae rhai cerbydau wedi parcio gyda'i gilydd yn y drefn ganlynol.**



Mae yma 2 gar, 2 fan a 2 lori. Rydym wedi cuddio lliw pob cerbyd. Bydd y cliwiau hyn yn eich helpu i benderfynu lliw pob cerbyd:

- Nid yw coch wrth ymyl arian
- Mae glas rhwng arian a gwyrdd
- Nid yw melyn yn gar na'n fan
- Mae glas uwchben oren

**Her:** Allwch chi feddwl am bos arall tebyg i'ch teulu ei wneud?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio rhesymeg a rhesymu i ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion i Weithgareddau Bl.5

Pecyn Mathemateg Teulu

## Ffisig peswch

Pob dydd mae angen i oedolyn gymryd 4 x 10ml (40ml). Felly mae angen 80ml pob dydd ar 2 oedolyn.

Pob dydd mae angen i blentyn gymryd 4 x 5ml (20ml). Felly mae angen 40ml pob dydd ar 2 blentyn.

Mae angen 120ml pob dydd ar 2 oedolyn a 2 blentyn. Am 5 diwrnod, byddai hyn yn 5 x 120 = 600ml, felly nid yw'r botel yn dal digon o ffisig.

## Rhif Lwcus 8

Dwy flwyddyn bosib yw 2024 a 2033

## Pos Pyramid

Mwyaf 1 4 5 3 2
Lleiaf 5 3 1 2 4

## Gwyliau Gwlad yr Iâ

Byddai'r tymheredd yn Awst yn 11.25˚C

## Taldra Bechgyn

| Oed | Cymedr | Dylai centimetrau fod yn |
|---|---|---|
| 1 | 30 | 76 |
| 2 | 35 | 89 |
| 3 | 38 | 97 |
| 4 | 41 | 104 |
| 5 | 44 | 112 |
| 6 | 46 | 117 |
| 7 | 48 | 122 |
| 8 | 51 | 130 |
| 9 | 53 | 135 |

## Lladron Gofod!

65 (9 x 7 = 63 gyda 2 dros ben;
8 x 8 = 64 gyda 1 dros ben)

## Llinell amser rhifau Rhufeinig

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brwydr Waterloo **MDCCCXV** | Brad y Powdwr Du **MDCV** | Brenhines Elizabeth II yn 90 oed **MMXVI** | Y Rhyfel Byd Cyntaf yn dechrau **MCMIV** | Tân Mawr Llundain **MDCLXVI** | Tîm pêl-droed dynion Lloegr yn ennill Cwpan y Byd **MCMLXVI** | Y Rhufeiniaid wedi goresgyn Cymru gyntaf **LXXVII** |
| Lewis Carroll wedi cyhoeddi 'Alice's Adventures in Wonderland' **MDCCCLXV** | Margaret Thatcher yn dod y ferch gyntaf i fod yn Brif Weinidog **MCMLXXIX** | Twnnel y Sianel yn agor **MCMXCIV** | Arian degol yn disodli punnoedd, sylltau a cheiniogau **MCMLXXI** | Y Frenhines Fictoria'n marw **MCMI** | 'What makes you beautiful gan One Direction yn rhif un **MMXI** | Cyfres Scooby Doo ar y teledu am y tro cyntaf **MCMLXIX** |

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion gweithgareddau'r Gwanwyn Bl.5

Pecyn Mathemateg Teulu

## Nofwyr o fri

- Siôn = 40 broga, 50 pili pala, 6 rhydd, 18 cefn = 114 i gyd
- Siân = 90 broga, 9 pili pala, 6 rhydd, 12 cefn = 117 i gyd
- Felly Siân a nofiodd y mwyaf o rasys

## Peintio wal

- 1/5 i beintio 2.5m$^2$ = byddai can cyfan yn peintio 12.5m$^2$
- 1/3 i beintio 3.5m$^2$ = byddai can cyfan yn peintio 10.5m$^2$

## Jiráffs

- 5.813m
- + 16cm = 5.973m
- e.e. 4.1m + 1.7m = 5.8m

## Penbleth gyda phitsa

8 ffrind, y ffracsiwn cyfwerth â 3/4 pitsa yw 6/8 neu 9/12

## Reidiau parc thema

1. Bws coch
2. 14.50
3. 2 awr 10 munud
4. Bws melyn
5. Bws coch neu las

## Raced denis

- Erbyn 10 Medi bydd wedi cynilo £3 a gyda'r anrheg o £20 = £23; ar 10 Hydref bydd ganddi £12 a gyda'r anrheg o £20 = £32
- Erbyn diwedd Rhagfyr bydd wedi cynilo £36.60 a'r £20 = £56.60, felly bydd yn cael 20% ychwanegol gan ei hewythr sef £11.32
- Felly ei chyfanswm fydd £67.92 a bydd yn gallu prynu'r raced.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion gweithgareddau'r Haf Bl.5

Pecyn Mathemateg Teulu

## Croeswm


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | x | 4 | = | 2 | 8 |
| - | | + | | ÷ | |
| 5 | x | 5 | = | 2 | 5 |
| = | | = | | = | |
| 2 | + | 9 | = | 1 | 1 |

## Pero'n mynd am dro i'r parc

Y pellteroedd i'w hadio un ffordd yw 5m, 300m, 750m a 4.75m = 1059.75m.

Rhaid dyblu hyn am y ffordd yn ôl = 2119.50m neu 2.1195km (wedi'i gyfannu i 2.12km).

## Maes parcio rhesymegol




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers